# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad y cyfarfod: 8 Ebrill 2025**

**Aelod Cabinet: Cynghorydd R Medwyn Hughes**

**Swyddog Cyswllt: Sioned Williams**

**Rhif Cyswllt: 01286 679547**

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**2. Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd dwi yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned dros y misoedd diwethaf. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**4. PROSIECTAU BLAENORIAETH CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)**

4.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd pedwar prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae'r Adran Economi a Chymuned yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tri o'r prosiectau hyn yn adran Gwynedd Lewyrchus o'r Cynllun, sydd yn anelu i gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng. Ond mae'r cyfrifoldeb i arwain ffrwd gwaith o fewn prosiect 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau' yn rhaglen Gwynedd Ofalgar wedi trosglwyddo i'r Adran ers dechrau Ionawr 2025.

4.2 O'r wybodaeth yn yr Atodiad, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau hyn dros y misoedd diwethaf. Y prif risg sy'n gyffredin i'r pedwar cynllun yma ydi fod ansicrwydd am ddyfodol y cyllidebau sydd

wedi ariannu'r gwaith ers 2023. Cyfeirir yma yn bennaf at gyllideb Rhaglen ARFOR, Cronfa Ffyniant Bro (Levelling-Up Fund) a'r Gronfa Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF).

4.3 Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y materion canlynol:

**Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy**

4.3.1 Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Economi Ymweld Cynaliadwy 14 Chwefror 2025 lle daeth dros 100 o fynychwyr o wahanol fusnesau, sefydliadau a chymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri i drafod y camau nesaf i weithredu ein cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y mynychwyr. Bydd y Bartneriaeth Economi Ymweld yn adlewyrchu ar y cyfraniadau a brwdfrydedd partneriaid i sicrhau fod budd clir i gymunedau wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26.

4.3.2 Wrth adlewyrchu ar y ffaith fod 109 o sefydliadau diwylliannol Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth drwy'r Prosiect Diwyllesiant dros y flwyddyn ddiwethaf a gydag ansicrwydd am gyllid tu hwnt i 2025/26 i gefnogi'r sector, cynhaliwyd digwyddiad Diwylliant Gwynedd ar 18 Chwefror 2025 i ddathlu cyfraniad pwysig y sector i les trigolion Gwynedd. Mynychodd dros 70 o bartneriaid a chytunwyd fod angen datblygu gweledigaeth ac egwyddorion i'r sector fuddsoddi yn y dyfodol.

4.3.3 Hoffwn dynnu eich sylw hefyd fod amserlen buddsoddi Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund - LUF) Llywodraeth Prydain wedi newid, gyda chyfle i wneud achos i ymestyn gwariant y gronfa hyd at ddiwedd 2027 a chyflawni rhai deilliannau erbyn diwedd 2029. Bydd hyn yn effeithio ar amserlen buddsoddi partneriaid yn y prosiect Llewyrch o'r Llechi a byddwn yn adolygu rhai cytundebau gyda phartneriaid yn y cymunedau dros yr wythnos nesaf. Dwi'n falch o ddweud fod rhai agweddau o'r cynllun bellach wedi cael eu cwblhau, ac roedd yn bleser ymweld yn ddiweddar â Neuadd Ogwen, sydd wedi derbyn £648,972.65 o grant drwy brosiect Llewyrch o'r Llechi Cyngor Gwynedd ar gyfer uwchraddio cyfleusterau, ac i gael clywed am y buddion uniongyrchol ir gymuned o'r buddsoddiad.

**Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi**

4.3.4 Mae'r prosiect wedi cyflawni holl gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer y chwarter diwethaf, ond mae cryn ymdrech gan y gwasanaeth ar hyn o bryd er mwyn cwblhau gwariant ar wahanol grantiau a chefnogi partneriaid i oresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni deilliannau a chyflwyno hawliadau llawn.

**Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**

4.3.5 Dros y chwarter diwethaf mae gwaith sylweddol wedi digwydd gan y Gwasanaeth i gwblhau gwariant ar brosiectau rhaglen ARFOR Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) Llywodraeth Prydain. Mae'r

rhaglenni hyn wedi cynnwys cronfeydd i gefnogi busnesau a mentrau cymunedol i ffynnu a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Hyd yma, mae 573 o fentrau wedi derbyn cymorth drwy SPF ac ARFOR ac mae 184 wedi eu cefnogi i ddychwelyd i waith.

4.3.6 Tra bod adroddiad gwerthuso rhaglen ARFOR yn dangos buddion clir i fusnesau a chymunedau; yn hyrwyddo defnydd a gwelededd y Gymraeg ac yn amlygu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc o fewn rhanbarth ARFOR, mae dyfodol y rhaglen yn parhau i fod yn ansicr heb unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'w ariannu eto yn 2025/26.

4.3.7 Hoffwn dynnu eich sylw fod Llywodraeth Prydain bellach wedi cadarnhau trefniadau er mwyn ymestyn SPF am flwyddyn arall, ond fod 49% yn llai o arian ar gael i Wynedd a siroedd Gogledd Cymru. Cynhaliwyd digwyddiad 12 Fawrth ym Mhorthmadog i ddathlu'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni gydag arian SPF hyd yma. Ar ddiwedd y rhaglen byddwn yn cynhyrchu llyfryn i'w rannu er mwyn amlygu gwerth y gwahanol brosiectau ar draws Gwynedd, ond efallai fod y fideo yma https://youtu.be/IP1wKeMwnIE yn rhoi rhagflas i chi o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni. Er ein bod yn parhau i werthuso effaith prosiectau yn rhaglen 2022/25, mae'r gwaith o adnabod blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 eisoes wedi cychwyn.

4.3.8 Fe nodwch o'r atodiad fod gwaith cytundebol ar gyfer datblygu 10 uned busnes newydd ym Minffordd yn agos i gael ei gwblhau, gyda'r bwriad o gychwyn y gwaith adeiladu ail chwarter 2025/26. Yn ogystal, fe nodwch fod amserlen paratoi'r Strategaeth Economaidd newydd wedi llithro, a hynny yn sgil penderfyniad Llywodraeth Prydain i gynnig arian SPF am flwyddyn ychwanegol i Awdurdodau Lleol.

**Prosiect Blaenoriaeth: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

4.3.9 Er bod prif gerrig milltir y prosiect hwn wedi eu cyflawni, dwi'n awyddus i adolygu ein trefniadau i gefnogi'r hybiau er mwyn creu model fyddai yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn dros y flwyddyn nesaf.


## 5. PERFFORMIAD GWASANAETHAU'R ADRAN

5.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Cafwyd cyfle i graffu perfformiad y gwahanol wasanaethau mewn cyfarfod 24 Mawrth 2024, a hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i'r materion canlynol:

**Gwasanaeth Adnoddau Hamdden – Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon**

5.2 Mae'r gwaith buddsoddi grant ym Mharc Padarn a Glynllifon yn parhau. Mae heriau amlwg wedi codi yn ystod y cyfnod datblygu ac mae trefniadau casglu boddhad cwsmer yn cael ei effeithio yn sgil y gwaith.

5.3 Adroddwyd tro diweddaf ar adferiad Cwmni Byw yn Iach yn darparu gwasanaethau. Gwelir eto fod nifer ymweliadau i'r canolfannau hamdden wedi bod yn uwch dros y misoedd diwethaf o'i gymharu â'r un cyfnodau ar gyfer 2023/4 a 2022/23.




5.4 Er hyn, dwi'n bryderus fod nifer disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yn ein canolfannau yn parhau i ostwng. Cyn Covid roedd 85% o blant CA2 oedd yn derbyn gwersi nofio ym mhyllau Byw'n Iach yn cyrraedd safon y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer sgiliau nofio sylfaenol. Erbyn diwedd Haf 2024, ddim ond 54% o holl blant CA2 gallwn fod yn sicr sydd yn medru nofio. Roedd 30% o'r rhai oedd wedi cael eu hasesu wedi methu gan nad oeddent wedi cael digon o sesiynau, ac roedd 16% heb dderbyn asesiad gan nad oedd ysgolion wedi dod a disgyblion i wersi.

5.5 Y pryder ydi mai rhai o'r ysgolion efo'r lefelau uchaf o ddifreintedd yn y sir sydd a'r lefelau isaf o sgiliau nofio. Nid ydi'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys nofio'n benodol, felly mae dibyniaeth lwyr ar ysgolion unigol i flaenoriaethu o fewn y maes iechyd a llesiant. Mae'r sefyllfa gyllidol wedi arwain nifer fawr o ysgolion i gwtogi ar y ddarpariaeth gyda chostau trafnidiaeth yn aml yn cael ei adrodd fel rhwystr penodol.

5.6 Mewn ymateb, hoffwn dynnu sylw'r Cabinet fy mod wedi cytuno gyda'r Aelod Cabinet Addysg i rannu manylion am gyfraddau nofio ysgolion gyda chyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt roi ystyriaeth bellach I'r risgiau a'r anghyfartaledd ar draws y sir.

**Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria Caernarfon.**

5.7 Cynyddodd nifer y cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266 (dim yn cynnwys Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon). Fodd bynnag, mae nifer fawr o gychod wedi eu tynnu oddi ar eu hangorfeydd dros gyfnod y gaeaf i'w hamddiffyn rhag difrod yn ystod tywydd garw ac i alluogi perchnogion i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. Mae'r gwasanaeth wedi cychwyn ar y broses o ohebu gyda'r holl gwsmeriaid i'w gwahodd i ailymgeisio am angorfa yn 2025. Ers dechrau'r flwyddyn mae nifer o ymholiadau wedi eu derbyn

ar draws yr harbyrau gan berchnogion cychod newydd sydd yn dymuno angori yng Ngwynedd, sy’n galonogol iawn.

5.8 Mae'n galonogol hefyd gweld fod rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn Hafan Pwllheli yn awyddus i barhau efo cytundeb yn 2025/26. Mae 9% wedi canslo eu cytundeb, sydd yn lefel trosiant arferol (gall fod hyd at 15%). Y prif resymau am ganslo ydi fod costau hwylio yn cynyddu, tywydd ac oedran perchennog y cwch. Ond cyfeirir hefyd at amgylchedd yr Hafan a Phwllheli gan gynnwys sialens carthu a'r gwasanaethau ar gael ar y lan (bwytai, gwestai, siopau ayyb). Mae Cynllun carthu mewn lle ac mae’r materion eraill yn cael ystyriaeth yn y cynlluniau buddsoddi i’r dyfodol.

5.9 Mae Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon yn rheoli Doc Fictoria ar ran Cyngor Gwynedd drwy gytundeb hanesyddol. Mae angen adolygu’r cytundeb yma a byddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf i gytuno ar delerau newydd gyda’r Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol.

**Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Celfyddydau a Llyfrgelloedd**

5.10 Yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror cwblhaodd 244 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer Archifau gyda 92% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda’r gwasanaeth, 2% yn fodlon, 1% o ddefnyddwyr yn nodi nad oeddent yn fodlon nac anfodlon, a 5% nad oeddent yn fodlon. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol, megis "Gwasanaeth ardderchog a chyfeillgar","Diolchgar iawn am yr holl gymorth", "Gwasanaeth effeithiol". O'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau fel "Yr oriau agor (dyddiau) ydi'r unig beth sy'n eich gadael i lawr", "Oriau / dyddiau agor. Mae'n anghyfleus gorfod cyfyngu i 3 diwrnod yn unig". Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Gwladol yn sgil toriadau nôl yn 2016.

5.11 Mae’r gwaith datblygu yn Amgueddfa Lloyd George bron a’i gwblhau ac edrychwn ymlaen at ail agor a chroesawu’r cyhoedd i’r Amgueddfa ar ein newydd wedd dros y Pasg.

5.12 Mae’r galw am y caffi yn Storiel yn parhau. Mae gwahanol opsiynau darparu wedi cael eu hystyried dros y misoedd diwethaf gan gynnwys partneru gyda Prifysgol Bangor a Gwasanaeth Oedolion Cyngor Gwynedd. Er nad ydi’r opsiynau hyn bellach yn bosib, mae cyfleoedd cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei ystyried.

5.13 Mae’r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur ond llwyddiannus i'r tîm yn Neuadd Dwyfor. Mae'r gyfradd bodlonrwydd yn parhau yn eithaf uchel, gyda'r gyfradd arferol rhwng 90%-96% a'r sylwadau yn rheolaidd yn canmol y cyfleusterau, staff a'r gofal cwsmer. Yn dilyn cyflwyno rhaglen llawn digwyddiadau mae nifer ymweliadau wedi cynyddu. Mae cryn dipyn o arbrofi wedi bod hefyd dros y cyfnod, megis clwb ffilm ar nos Lun lle mae byrddau a seddi yn cael eu gosod o flaen y sgrin a mynychwyr yn cael eu hannog i ddod a tec-awe gyda hwy i fwynhau'r ffilm gyda diod o'r bar. Yn ystod y nosweithiau yma rydym wedi gweld cynnydd yn ein gwerthiant o fwyd a diod.

5.14 Diolch i arian SPF mae desg oleuo newydd wedi cyrraedd Neuadd Dwyfor gyda thaflunydd newydd yn cael ei osod mis Ebrill. Bydd y rhain yn sicrhau cynaladwyedd Neuadd Dwyfor fel cyrchfan ddiwylliannol i drigolion Gwynedd am y blynyddoedd i ddod.

5.15 Mae casgliadau arolwg bodlonrwydd cwsmer diweddaraf y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn dangos fod 98% o’r defnyddwyr yn hapus iawn gyda’r gwasanaeth. Mae sawl gohebiaeth wedi dod i fy sylw yn darlunio effaith mae'r gwasanaeth Llyfrgell yn ei gael ar drigolion Gwynedd. Dyma enghraifft gan gwsmer Llyfrgell Tywyn: ‘… y llyfrgell ... yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned. Nid yn unig yn yr ardal leol ond ymhell i ffwrdd hefyd. Gwerth am arian, mae'n rhaid iddo fod yn un o'r gwasanaethau gorau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r adeilad yn sicr wedi arfer â'i botensial llawn. Mae'r staff ar y safle i gyd yn rhoi ymdrech 100% i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w cleientiaid. Ar wahân i'r gwasanaethau llyfrgell arferol, sy'n cael eu defnyddio'n dda. Mae nifer y gweithgareddau lleol sy'n digwydd yn yr Adeilad hwnnw yn drawiadol a dweud y lleiaf. Maent yn amrywio o Grwpiau Ysgrifennu, Grwpiau Gwyddbwyll, Grwpiau Mamau a Babanod. Mae nifer o grwpiau eraill yn ormod i'w crybwyll.'

**Gwasanaethau Economi ac Adfywio**

5.16 Mae’r gwasanaethau Datblygu’r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y misoedd diwethaf ar weithredu’r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn felly wedi cael ei adrodd yno.

## 6. SEFYLLFA ARIANNOL

6.1 Mae gan yr Adran gynllun oedd fod i greu arbedion o £100,000 rhwng 2022/23 - 2024/25, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd, ond mae'r gwaith wedi ei gwblhau bellach. Er hynny, mae’n amlwg fod yr argyfwng a’r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wylio ffilmiau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y we /teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu’r arbedion yn llawn. Er fod cynnydd wedi bod yn nifer defnyddwyr y Neuadd fel adroddir yn 5.13, mae’n anodd gweld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu’r Neuadd. Mae’r trafodaethau ar y gweill i adnabod cynllun gweithredu rhesymol yn y tymor byr.

6.2 Mae un cynllun arbedion yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £45,000), sy’n amodol ar godi ffioedd parcio ar y safle. Mae’r gwaith bellach wedi ei gwblhau a bydd trafodaethau lleol yn parhau ynghylch trefniadau rheoli’r safle i’r dyfodol, gan gynnwys ffioedd sydd i’w cyflwyno.

6.3 Gan eithrio arbedion cynlluniau a nodir yn 4.1 a 4.2, mae gweddill cynlluniau oedd wedi eu rhaglenni wedi eu gwireddu yn 2024/25, gyda chynlluniau cyfredol gwerth £135,020 wedi eu rhaglennu ar gyfer 2025/26.

6.4 Adroddwyd ar berfformiad ariannol cynhwysfawr o sefyllfa'r Adran yn gyfarfod 21 Ionawr 2025 o'r Cabinet, gyda rhagolygon y bydd yr Adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r gorwariant yn bennaf ar ddiffyg incwm yn Neuadd Dwyfor, oherwydd y rhesymau nodir yn 4.1, ynghyd â chostau uwch rhedeg eiddo Byw'n Iach, diffyg incwm gwasanaeth Morwrol a diffyg incwm Storiel. Mae cyfuniad o danwariant ar benawdau eraill ynghyd â defnydd o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'r gorwariant a adroddir i £239k. Bydd adroddiad cynhwysfawr ar sefyllfa derfynol o berfformiad ariannol yr Adran yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 13 Mai 2025.

6.5 Byddwn yn parhau i adolygu'r meysydd yn agos yn y flwyddyn ariannol newydd, gan obeithio adnabod cyfleoedd i weithredu arbedion lle'n bosib.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

*"Dim sylwadau i ychwanegu o safbwynt priodoldeb".*

**Prif Swyddog Cyllid:**

*"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned".*